

YSGOL GYNRADD TALYSARN

4/1/17

Blwyddyn Newydd Dda.

Edrychwn ymlaen i gyd-weithio gyda chwi ôll yn ystod y flwyddyn newydd yma er lles a datblygiad yr holl ddisgyblion. Mae holl staff yr ysgol yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau fod y disgyblion ôll yn datblygu i'w llawn potensial.

Dyddiadau Pwysig i'r Calendr

Urdd yn ail gychwyn yn ôl:- 3.15-4.00

Ionawr 10, 24

Chwefror 7, 28

Mawrth 14, 28

Ebrill 11

Gwyliau Hanner Tymor - **Chwefror 20 - 24**

Gwyliau Pasg - **Ebrill 10 - 21**

Hyfforddiant Mewn Swydd i'r staff – dim ysgol i'r plant - **Chwefror 27, Ebrill 3**

Lluniau Unigol Tempest - **Mawrth 24**

Tenis/Nofio

Bydd y gwersi yn dechrau yn ôl wythnos yma, **Ionawr 6ed**. Yn ystod y tymor yma bydd Blwyddyn 1, 3 a 4 yn mynd i'r gwersi nofio a Blwyddyn 2, 5 a 6 yn mynd i'r gwersi tenis. Gofynnwn yn garedig am gyfraniad o £1.80 tuag at gostau'r bws.

Gweithdrefnau Tywydd Garw

Ein prif nod yw sicrhau iechyd a diogelwch cymuned yr ysgol – plant, rhieni a staff.

Cau'r ysgol yn ystod y dydd

Pe bai gofyn inni gau'r ysgol yn ystod y dydd pan fo'r plant eisioes yn yr ysgol, byddwn yn cysylltu â'r rhieni unwaith y bydd y penderfyniad i gau'r ysgol wedi ei wneud – er mwyn eich hysbysu i gludo eich plentyn/plant.

Penderfyniad i gau'r ysgol ben bore

Hwn yw'r penderfyniad anoddaf i'w wneud oherwydd ar y naill llaw rydym angen rhoi rhybydd rhesymol i chwi os yw'r ysgol yn gorfod cau gan hefyd sicrhau fod y penderfyniad yn un cywir.

Os ceir tywydd garw, dylid gwrandao ar Radio Cymru neu Radio Heart er mwyn gwybod os ydyw'r ysgol ar agor.

Gellir hefyd dderbyn gwybodaeth gyfredol ar y safweoedd canlynol:

Gwefan: <http://www.gwynedd.gov.uk/ysgolionwedicau> (tywydd garw: rhestr ysgolion)

Gwefan: BBC CYMRU NEWYDDION (rhestr ysgolion ar gau):

Gwefan: <http://www.heartcymru.co.uk/>

Rhaid sylweddoli hefyd y gall y sefyllfa newid rhwng 8 a 9 o'r gloch gan fod hynny yn ddibynnol ar allu'r staff i gyrraedd yr ysgol neu bod y tywydd yn gwaethygu, yna byddai'n ddyletswydd arnom i ail-ystyried y penderfyniad gwreiddiol.

Presenoldeb a Phrydlondeb

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn yr ysgol yn hanfodol os yw disgyblion am fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael. Os gwelwch yn dda allwch chi sicrhau fod y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol erbyn 9 o'r gloch bob bore a dilyn y drefn arferol o ffonio'r ysgol os ydi eich plentyn yn sâl.

8.15 y bore mae'r Clwb Brecwast yn cychwyn, ac os nad ydi'r plant yn mynychu y Clwb ni ddylai'r plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.50.

Diolch i chwi eto am eich cefnogaeth.

Yn gywir,

G. Evans a staff Ysgol Talysarn